

Sunday the 13th of September 2026
+The Fifteenth Sunday after Trinity

The collect of the day

Almighty God, your only Son has opened for us a new and living way into your presence: give us pure hearts and steadfast wills to worship you in spirit and in truth; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Genesis
(50.15-21)

Realizing that their father was dead, Joseph's brothers said, 'What if Joseph still bears a grudge against us and pays us back in full for all the wrong that we did to him?' So they approached Joseph, saying, 'Your father gave this instruction before he died, "Say to Joseph: I beg you, forgive the crime of your brothers and the wrong they did in harming you." Now therefore please forgive the crime of the servants of the God of your father.'

Joseph wept when they spoke to him. Then his brothers also wept, fell down before him, and said, 'We are here as your slaves.'

But Joseph said to them, 'Do not be afraid! Am I in the place of God? Even though you intended to do harm to me, God intended it for good, in order to preserve a numerous people, as he is doing today. So have no fear; I myself will provide for you and your little ones.' In this way he reassured them, speaking kindly to them.

The Psalm
(103.6-13)

The Lord executes righteousness and judgement for all who | are oppressed. He made his ways known to Moses and his

works to the chil | dren of Israel. The Lord is full of com/passion and / mercy: slow to anger / and of / great / kindness. He will not / always ac/cuse us: neither will he / keep his / anger for / ever.

He has not dealt with us according / to our / sins: nor rewarded us ac/cording / to our / wickedness. For as the heavens are high a/bove the / earth: so great is his / mercy • upon / those who / fear him.

As far as the east is / from the / west: so far has he / set our / sins / from us. As a father has compassion / on his / children: so is the Lord merciful towards / those who / fear / him.

The reading from Romans
(14.1-12)

Welcome those who are weak in faith, but not for the purpose of quarrelling over opinions. Some believe in eating anything, while the weak eat only vegetables. Those who eat must not despise those who abstain, and those who abstain must not pass judgement on those who eat; for God has welcomed them. Who are you to pass judgement on servants of another? It is before their own lord that they stand or fall. And they will be upheld, for the Lord is able to make them stand.

Some judge one day to be better than another, while others judge all days to be alike. Let all be fully convinced in their own minds. Those who observe the day, observe it in honour of the Lord. Also those who eat, eat in honour of the Lord, since they give thanks to God; while those who abstain, abstain in honour of the Lord and give thanks to God.

We do not live to ourselves, and we do not die to ourselves. If we live, we live to the Lord, and if we die, we die to the Lord; so then, whether we live or

whether we die, we are the Lord's. For to this end Christ died and lived again, so that he might be Lord of both the dead and the living.

Why do you pass judgement on your brother or sister? Or you, why do you despise your brother or sister? For we will all stand before the judgement seat of God. For it is written, 'As I live, says the Lord, every knee shall bow to me, and every tongue shall give praise to God.' So then, each of us will be accountable to God.

The reading from the Gospel according to Saint Matthew
(18.21-35)

Peter came and said to Jesus, 'Lord, if another member of the church sins against me, how often should I forgive? As many as seven times?'

Jesus said to him, 'Not seven times, but, I tell you, seventy-seven times.'

'For this reason the kingdom of heaven may be compared to a king who wished to settle accounts with his slaves. When he began the reckoning, one who owed him ten thousand talents was brought to him; and, as he could not pay, his lord ordered him to be sold, together with his wife and children and all his possessions, and payment to be made. So the slave fell on his knees before him, saying, "Have patience with me, and I will pay you everything." And out of pity for him, the lord of that slave released him and forgave him the debt.


'But that same slave, as he went out, came upon one of his fellow-slaves who owed him a hundred denarii; and seizing him by the throat, he said, "Pay what you owe." Then his fellow-slave fell down and pleaded with him, "Have patience with me, and I will pay you." But he refused;

then he went and threw him into prison until he should pay the debt. When his fellow-slaves saw what had happened, they were greatly distressed, and they went and reported to their lord all that had taken place. Then his lord summoned him and said to him, "You wicked slave! I forgave you all that debt because you pleaded with me. Should you not have had mercy on your fellow-slave, as I had mercy on you?" And in anger his lord handed him over to be tortured until he should pay his entire debt.

'So my heavenly Father will also do to every one of you, if you do not forgive your brother or sister from your heart.'

The collect following communion

Keep, O Lord, your Church, with your perpetual mercy; and, because without you our human frailty cannot but fall, keep us ever by your help from all things hurtful, and lead us to all things profitable to our salvation; through Jesus Christ our Lord. AMEN



Colect y dydd

O Dduw, yn dy drugaredd hael anfonaist yr Ysbryd Glân ar dy Eglwys, yn nhân ysol dy gariad: caniatâ i'th bobl fod yn danbaid yng nghymdeithas yr efengyl fel, gan fyw'n wastadol ynot ti, y ceir hwy yn gadarn mewn ffydd ac yn ymroddgar eu gwasanaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Genesis (50.15-21)

Wedi marw eu tad, daeth ofn ar frodyr Joseff, a dywedasant, "Efallai y bydd Joseff yn ein casáu ni, ac yn talu'n ôl yr holl ddrwg a wnaethom iddo." A daethant at Joseff, a dweud, "Rhoddodd dy dad orchymyn fel hyn cyn marw, 'Dywedwch wrth Joseff, "Maddau yn awr ddrygioni a phechod dy frodyr, oherwydd gwnaethant ddrwg i ti.'" Yn awr, maddau ddrygioni gweision Duw dy dad."

Wylodd Joseff wrth iddynt siarad ag ef. Yna daeth ei frodyr a syrthio o'i flaen, a dweud, "Yr ydym yn weision i ti."

Ond dywedodd Joseff wrthynt, "Peidiwch ag ofni. A wyf fi yn lle Duw? Yr oeddech chwi yn bwriadu drwg yn f'erbyn; ond trodd Duw y bwriad yn ddaioni, er mwyn gwneud yr hyn a welir heddiw, cadw'n fyw llawer o bobl. Felly peidiwch ag ofni; fe'ch cynhaliad chwi a'ch rhai bach." A chysurodd hwy, a siarad yn dyner wrthynt.

The salm (103.6-13)

Y mae'r ARGLWYDD yn gweithredu cyfiawnder a barn i'r holl rai

gorthrymedig. Dysgodd ei ffyrdd i Moses, a'i weithredoedd i blant Israel. Trugarog a graslon yw'r ARGLWYDD, araf i ddigio a llawn ffyddlondeb. Nid yw'n ceryddu'n ddiddiwedd, nac yn meithrin ei ddicter am byth.

Ni wnaeth â ni yn ôl ein pechodau, ac ni thalodd i ni yn ôl ein camweddau. Oherwydd fel y mae'r nefoedd uwchben y ddaear, y mae ei gariad ef dros y rhai sy'n ei ofni;

cyn belled ag y mae'r dwyrain o'r gorllewin y pellhaodd ein pechodau oddi wrthym. Fel y mae tad yn tosturio wrth ei blant, felly y tosturia'r ARGLWYDD wrth y rhai sy'n ei ofni.

Darlleniad o Rufeiniaid (14.1-12)

Derbyniwch i'ch plith unrhyw un sy'n wan ei ffydd, ond nid er mwyn codi dadleuon. Y mae gan ambell un ddigon o ffydd i fwyta pob peth, ond y mae un arall, gan fod ei ffydd mor wan, yn bwyta llysiau yn unig. Rhaid i'r sawl sy'n bwyta pob peth beidio â bychanu'r sawl sy'n ymwrthod, a rhaid i'r sawl sy'n ymwrthod beidio â barnu'r sawl sy'n bwyta, oherwydd y mae Duw wedi ei dderbyn. Pwy wyt ti, i fod yn barnu gwas rhywun arall? Gan y Meistr y mae'r hawl i benderfynu a yw rhywun yn sefyll neu'n syrthio. A sefyll a wna, oherwydd y mae'r Meistr yn abl i beri i rywun sefyll.

Y mae ambell un yn ystyried un dydd yn well na'r llall, ac un arall yn eu hystyried i gyd yn gyfartal. Rhaid i'r naill a'r llall fod yn gwbl argyhoeddedig yn eu meddyliau eu hunain. Y mae'r sawl sy'n cadw'r dydd yn ei gadw er gogoniant yr Arglwydd; a'r sawl sy'n bwyta pob peth yn gwneud hynny er gogoniant yr Arglwydd, oherwydd y mae'n rhoi diolch i Dduw. Ac y mae'r un sy'n ymwrthod yn ymwrthod

er gogoniant yr Arglwydd; y mae'n rhoi diolch i Dduw.

Oherwydd nid oes neb ohonom yn byw nac yn marw i ni'n hunain. Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym. Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.

Pam yr wyt ti yn barnu rhywun arall? A thithau, pam yr wyt yn bychanu rhywun arall? Oherwydd bydd rhaid inni bob un sefyll gerbron brawdle Duw. Fel y mae'n ysgrifenedig: "Cyn wired â'm bod i yn fyw, medd yr Arglwydd, i mi y bydd pob glin yn plygu, a phob tafod yn moliannu Duw." Am hynny, bydd rhaid i bob un ohonom roi cyfrif amdanom ni'n hunain i Dduw.

Darlleniad o Efengyl Sant Mathew (18.21-35)

Yna daeth Pedr a gofyn iddo, "Arglwydd, pa sawl gwaith y mae fy nghyfaill i bechu yn fy erbyn a minnau i faddau iddo? Ai hyd seithwaith?"

Meddai Iesu wrtho, "Nid hyd seithwaith a ddywedaf wrthyf, ond hyd saith deg seithwaith.

"Am hynny y mae teyrnas nefoedd yn debyg i frenin a benderfynodd adolygu cyfrifon ei weision. Dechreuodd ar y gwaith, a dygwyd ato was oedd yn ei ddyled o ddeng mil o godau o arian. A chan na allai dalu gorchmynnodd ei feistr iddo gael ei werthu, ynghyd â'i wraig a'i blant a phopeth a feddai, er mwyn talu'r ddyled. Syrthiodd y gwas ar ei liniau o flaen ei feistr a dweud, 'Bydd yn amyneddgar wrthyf, ac fe dalaf y cwbl iti.' A thosturiodd meistr y gwas hwnnw wrtho; gollyngodd ef yn rhydd a maddau'r ddyled iddo.

"Aeth y gwas hwnnw allan a daeth o hyd i un o'i gydweision a oedd yn ei ddyled ef o gant o ddarnau arian; ymaflodd ynddo gerfydd ei wddf gan ddweud, 'Tâl dy ddyled.' Syrthiodd ei gydwas i lawr a chrefodd arno, 'Bydd yn amyneddgar wrthyf, ac fe dalaf iti.' Ond gwrthododd; yn hytrach fe aeth a'i fwrw i garchar hyd nes y talai'r ddyled. Pan welodd ei gydweision beth oedd wedi digwydd, fe'u blinwyd yn fawr iawn, ac aethant ac adrodd yr holl hanes wrth eu meistr. Yna galwodd ei feistr ef ato, ac meddai, 'Y gwas drwg, fe faddeuais i yr holl ddyled honno i ti, am iti grefu arnaf. Oni ddylit tithau fod wedi trugarhau wrth dy gydwas, fel y gwneuthum i wrthyf ti?' Ac yn ei ddicter traddododd ei feistr ef i'r poenydwyr hyd nes y talai'r ddyled yn llawn.

"Felly hefyd y gwna fy Nhad nefol i chwithau os na faddeuwch bob un i'w gyfaill o'ch calon."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Cadw, O Arglwydd, dy Eglwys, â'th drugaredd tragwyddol; a chan na all ein gwendid dynol hebot ti ond syrthio, cadw ni bob amser trwy dy gymorth rhag pob peth niweidiol, ac arwain ni at bob peth sy'n fuddiol i'n hiachawdwriaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN

